RHIFYN ISSUE 19
17.12.19

Llais Llantrisant

SIWMPERI NADOLIG
CHRISTMAS JUMPERS

Llu o liwiau unwaith eto eleni! Diolch am eich cyfraniadau - codwyd £157.30.

A sea of colour once again this year! Thank you for your contributions - we raised £157.30.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES


18.12.19 - Brechiad y Ffliw
Flu Immunisation
19.12.19 - Parti Nadolig y Cyfnod Sylfaen - 10:00 yb
Foundation Phase Christmas Party - 10:00 am
20.12.19 - Disgo Nadolig CA2 - 1:30 yp
KS2 Christmas Disco- 1:30 pm
20.12.19 - Plant yn gorffen am y Nadolig am 3:30 yp
Children finish for Christmas at 3:30 pm
07.01.20 - Plant yn dychwelyd - Tymor y Gwanwyn
Children return - Spring Term



HWYL FAWR A DIOLCH
GOOD BYE AND THANK YOU

Ar ran holl staff a phlant yr ysgol, diolch yn fawr iawn i Miss Bethan Williams am ei holl waith caled ers iddi ddechrau gweithio gyda ni yn 2014. Colled fawr i'r ysgol ond pennod newydd gyffrous yng ngyrfa Miss Williams. Hoffem ddymuno pob lwc i Miss Williams wrth iddi ddechrau yn ei swydd newydd fis Ionawr.

On behalf of all the staff and children, many thanks to Miss Bethan Williams for all her hard work since she started working with us in 2014. A great loss to the school but a new and exciting chapter for Miss Williams. We should like to wish Miss Williams all the best in her new job which she starts in January.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
MERRY CHRISTMAS AND A HAPPY NEW YEAR

Diolch i bawb am eich holl waith caled a chefnogaeth y tymor hwn. Mwynhewch y gwyliau!

Many thanks to everyone for your hard work and support this term. Enjoy the holidays!



CYNGHERDDAU A GWASANAETHAU CAROLAU
CONCERTS AND CAROL SERVICES

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth yn ystod pob un o'n cyngherddau a gwasanaethau Nadolig unwaith eto eleni. Mae'r plant wedi gweithio'n galed iawn gyda chymorth eu hathrawon a chi i ddysgu holl eiriau'r caneuon, darlleniadau a sgriptiau'r sioeau amrywiol. Unwaith eto, cafwyd perfformiadau o'r safon uchaf o'r Meithrin i Flwyddyn 6!

Many thanks to everyone who showed their support when attending our many Christmas concerts and services once again this year. With the support of their teachers and yourselves, the children worked very hard to learn all their song words, readings and scripts. Once again, we saw performances of the very highest standard from Nursery to Year 6!



Y GRhA
PTA

Noson hyfryd arall wedi'i threfnu gan GRhA yr ysgol a chyfle i fwynhau lleisiau pêr Côr yr ysgol. Diolch hefyd, i Gôr Tadau Trisant am eu cefnogaeth fel arfer. Diolch i bawb a ddaeth draw i Eglwys All Hallows i gefnogi'r digwyddiad yma a'r Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol. Codwyd swm sylweddol o arian tuag at gronfa'r GRhA ac, wrth gwrs, i'r plant rhwng y ddau ddigwyddiad yma.

Another great Carol Service organised by the PTA with the opportunity to hear our fantastic School Choir perform. Thanks also to Côr Tadau Trisant for their support once again. Thank you to everyone who attended this event at All Hallows Church and the Christmas Fête in the school hall. Both events raised a considerable amount of money for the PTA funds for the children.



